Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol:
82/2016

Dyddiad Cyhoeddi:
14/12/2016

# Teitl: Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2015

## Crynodeb o ganlyniadau 2013 - 2015

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol: 978 1 4734 6314 1

# Llywodraeth Cymru

# Arolwg Llais y Dysgwr Cymru 2015

## Crynodeb o ganlyniadau 2013-15

**Awduron: Steven Ginnis,** Cyfarwyddwr Cyswllt, **Sophie Amili,** Swyddog Ymchwil Gweithredol, **Kelly Maguire,** Swyddog Ymchwil Gweithredol

Ipsos MORI

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

**Rhagor o Wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Joanne Corke
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 1138
E-bost: Joanne.Corke@wales.gsi.gov.uk

**Dogfennau cysylltiedig**
*Arolwg Llais y Dysgwr, canlyniadau 2015* (Llywodraeth Cymru, 2015)
*Arolwg Llais y Dysgwr, canlyniadau, 2014* (Llywodraeth Cymru, 2015)
*Arolwg Llais y Dysgwr, Canlyniadau 2013* (Llywodraeth Cymru, 2013)
*Arolwg Addysg Bellach Llais y Dysgwr 2009* (Llywodraeth Cymru, 2010)

ISBN Digidol: 978 1 4734 6314 1
© Hawlfraint y Goron 2016

WG82/2016

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Trosolwg: sgôr cyffredinol, beth mae dysgwyr yn ei hoffi fwyaf a meysydd i'w gwella** | **4** |
| Sgôr cyffredinol profiad y dysgwr | **5** |
| Beth mae dysgwyr yn ei hoffi fwyaf? | **6** |
| Beth mae dysgwyr yn credu y gellid ei wella? | **8** |
| Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg | **10** |
| **Storïau'r Sector: AB, WBL, ACL, CiO a hawdd ei ddarllen** | **11** |
| Addysg Bellach | **12** |
| Dysgu Seiliedig ar Waith | **14** |
| Dysgu Oedolion yn y Gymuned | **16** |
| Cymraeg i Oedolion | **18** |
| Hawdd ei Ddarllen | **20** |
| **Ymchwiliadau** | **21** |
| Ethnigrwydd | **22** |
| Dysgwyr ag anawsterau a / neu anableddau dysgu | **24** |
| Dadansoddiad hydredol | **26** |

# Rhestr o'r Ffigurau


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Trosolwg o gyfranogiad yn Llais y Dysgwr Cymru | **3** |
| **2.** | Sgôr cyffredinol darparwyr | **5** |
| **3.** | Trosolwg o Ddadansoddiad o Brif Ysgogwyr (KDA) o Flwyddyn Un | **5** |
| **4.** | Trosolwg o'r hyn roedd dysgwyr yn ei hoffi fwyaf am eu cwrs / hyfforddiant | **6** |
| **5.** | Cymharu sgoriau cyffredinol colegau / darparwyr â ffactorau unigol | **7** |
| **6.** | Trosolwg o welliannau a awgrymwyd: cyfleusterau ac Addysgu a Dysgu | **8** |
| **7.** | Cymharu sgoriau cyffredinol â ffactorau unigol i'w gwella | **9** |
| **8.** | Trosolwg o'r cyfle i ddysgu yn Gymraeg | **10** |
| **9.** | Sgoriau Addysg Bellach yn ôl thema: cyfran y dysgwyr sy'n rhoi sgôr 'da iawn' | **12** |
| **10.** | Yr hyn roedd dysgwyr Addysg Bellach yn ei hoffi fwyaf | **12** |
| **11.** | Sgoriau unigol gyda'r gwelliant mwyaf (Addysg Bellach) | **12** |
| **12.** | Meysydd i'w gwella yn achos dysgwyr Addysg Bellach | **13** |
| **13.** | Sgoriau dysgu seiliedig ar waith (WBL) yn ôl thema: cyfran y dysgwyr sy'n rhoi sgôr 'da iawn' | **14** |
| **14.** | Yr hyn mae dysgwyr Seiliedig ar Waith yn ei hoffi fwyaf | **14** |
| **15.** | Mesurau unigol gyda'r gwelliant mwyaf (WBL) | **15** |
| **16.** | Meysydd i'w gwella yn achos dysgwyr seiliedig ar waith | **15** |
| **17.** | Sgoriau Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) yn ôl thema: cyfran y dysgwyr sy'n rhoi sgôr 'da iawn' | **16** |
| **18.** | Yr hyn roedd Oedolion sy'n Dysgu yn y Gymuned yn ei hoffi fwyaf | **16** |
| **19.** | Mesurau unigol â'r gwelliant mwyaf (ACL) | **17** |
| **20.** | Meysydd i'w gwella yn achos oedolion sy'n dysgu yn y gymuned | **17** |
| **21.** | Sgoriau Cymraeg i Oedolion (CiO) yn ôl thema: cyfran y dysgwyr sy'n rhoi sgôr 'da iawn' | **18** |
| **22.** | Yr hyn roedd dysgwyr CiO yn ei hoffi fwyaf | **18** |
| **23.** | Mesurau unigol â'r gwelliant mwyaf (CiO) | **19** |
| **24.** | Meysydd i'w gwella yn achos dysgwyr Cymraeg i Oedolion | **19** |
| **25.** | Crynodeb o'r canlyniadau Hawdd ei Ddarllen | **20** |
| **26.** | Sgôr cyffredinol yn ôl ethnigrwydd | **22** |

# Cyflwyniad


Llais y Dysgwr Cymru yw'r **arolwg dysgwyr ôl-16 oed mwyaf** i'w gynnal yng Nghymru. Rhwng 2013-2015, bu cyfanswm o **182,691 ddysgwyr yn cymryd rhan** yn yr arolygon craidd ar draws y sectorau Addysg Bellach (AB), Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL), Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) a Chymraeg i Oedolion (CiO).

Mae'r arolwg yn cael ei gynnal yn flynyddol rhwng Rhagfyr a Chwefror ac mae'n gyfle i ddysgwyr roi **adborth dienw am eu profiadau** o addysg a hyfforddiant.

Mae canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Cymru wedi cael eu defnyddio i **gyfrannu at arolygon Estyn** o ddarparwyr dysgu ôl-16 oed ac i **hybu gwelliant yn y sector**, fel rhan allweddol o Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru.

Mewn unrhyw flwyddyn, roedd rhwng **40% a 48% o'r holl ddysgwyr yn y cwmpas yng Nghymru** yn cymryd rhan yn arolwg Llais y Dysgwr Cymru. Mae'r siartiau isod yn rhoi dadansoddiad o'r cyfranogwyr yn ôl sector, rhyw, dull cwblhau ac mae'n dangos y cyfranogwyr sy'n Bobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig a Dysgwyr ag Anawsterau neu Anabledd Dysgu (LLDD).

**Ffigur 1. Trosolwg o gyfranogiad yn Llais y Dysgwr Cymru**







**AB**
104,404 o gyfranogwyr
Cyfradd gyfranogi o 50%


**WBL**
54,267 o gyfranogwyr
Cyfradd gyfranogi o 51%


**ACL**
17,996 o gyfranogwyr
Cyfradd gyfranogi o 28%

**CiO**
6,024 o gyfranogwyr
Cyfradd gyfranogi o 16%




# Trosolwg: sgoriau cyffredinol, yr hyn roedd dysgwyr yn ei hoffi fwyaf, a meysydd i’w gwella

# Sgorio profiad cyffredinol y dysgwr

Mae dysgwyr ledled Cymru yn **bositif iawn** ynghylch eu profiad dysgu. Ym mhob sector gyda'i gilydd, sgoriodd **bron i hanner y dysgwyr** eu profiad cyffredinol fel **'da iawn'** (48%-49%) ac roedd dros draean ychwanegol yn sgorio eu coleg neu ddarparwr fel 'da' (36%). Yn gyson ym mhob blwyddyn o'r arolwg, mae 85% o ddysgwyr wedi sgorio eu profiad naill ai fel 'da' neu 'da iawn'.

O ystyried maint yr ymateb positif, mae gweddill yr adroddiad hwn yn defnyddio cyfran y dysgwyr sy'n sgorio agweddau ar eu profiad fel 'da iawn' fel y prif wahaniaethwr rhwng canlyniadau.

**Ffigur 2. Sgôr cyffredinol darparwyr**
**C. A allwch chi'n awr sgorio eich coleg/darparwr yn gyffredinol?**




Sylfaen: Blwyddyn 1 (53,564); Blwyddyn 2 (66,382); Blwyddyn 3 (61,621) Ffynhonnell: Ipsos MORI


**Ym mlwyddyn gyntaf yr arolwg, cynhaliwyd Dadansoddiad o Ysgogwyr Allweddol (KDA) ar y cwestiwn "A allwch chi sgorio eich coleg/darparwr yn gyffredinol" i ddangos pa agweddau ar brofiad y dysgwr oedd prif ysgogwyr sgôr positif cyffredinol. Gwnaethpwyd y dadansoddiad ar 33,534 o ymatebion.**

Mae'r KDA yn dangos bod 64% o'r gwahaniaeth yn sgôr cyffredinol y dysgwyr yn cael ei egluro gan dair agwedd: **help a chefnogaeth, addysgu a hyfforddiant, a gwybodaeth a chyngor**. Mae hyn yn golygu mai'r rhain yw'r meysydd y dylai darparwyr roi blaenoriaeth iddynt i wella sgoriau cyffredinol profiad y dysgwr.

Y tri maes mwyaf arwyddocaol o fewn **help a chefnogaeth** oedd: cymorth dysgu ychwanegol, rhoi gwybod i ddysgwyr lle i fynd am gymorth, a help a chefnogaeth penodol (er enghraifft, gyda materion personol).

Y prif ysgogwyr o fewn addysgu a hyfforddiant oedd: egluro'r gwaith y mae angen i dysgwyr ei wneud, gwrando ar ddysgwyr, a rhoi adborth ar sut y wella.

**Ffigur 3. Trosolwg o'r Dadansoddiad o Brif Ysgogwyr (KDA) o Flwyddyn Un**




Sylfaen (33,534 o ddysgwyr o Flwyddyn 1). Cafodd nifer yr ysgogwyr ei leihau drwy ddefnyddio dadansoddiad ffactor. Ffynhonnell: Ipsos MORI

# Beth mae dysgwyr yn ei hoffi fwyaf?

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd cwestiwn agored i ddysgwyr am **yr hyn roeddent yn ei hoffi fwyaf am eu cwrs neu hyfforddiant**. Cyflwynodd cyfanswm o **66,635** o ddysgwyr ymateb; cafodd yr ymatebion hyn eu dadansoddi – gan ddefnyddio dysgu peiriant a phrosesu iaith naturiol – i themâu allweddol. Mae dysgwyr fwyaf tebygol o grybwyll eu cwrs a chynnydd mewn dysgu, a'r help a'r gefnogaeth maent yn ei gael fel y pethau maent yn eu hoffi fwyaf.

*Mae rhagor o wybodaeth am y dull dadansoddi ar y dudalen ddilynol.*

**Ffigur 4. Trosolwg o'r hyn roedd dysgwyr yn ei hoffi fwyaf am eu cwrs/hyfforddiant**

"Mae fy hyfforddwr yn wych, yn fodel rôl da i brentisiaid ifanc"

"Rwyf wedi cwrdd â llawer o ffrindiau da ac wedi ennill hyder"


**POBL**
Dywedodd dros **8,500** o ddysgwyr mai'r bobl yr oeddent wedi cwrdd â nhw oedd y peth roeddent yn ei hoffi fwyaf. Roedd hyn yn cynnwys ffrindiau newydd athrawon, tiwtoriaid, aseswyr a staff eraill.

**AWYRGYLCH**
Dywedodd dros **8,500** o ddysgwyr mai'r awyrgylch yn eu coleg neu ddarparwr oedd y peth roeddent yn ei hoffi fwyaf. Roedd hyn yn cynnwys cael eu trin â pharch fel oedolyn, a chreu awyrgylch positif i ddysgu ynddo.

"Dwi hoffi'r ffaith nad yw'r darlithwyr yn eich trin fel plentyn"

"Y ffordd maent yn gwneud i bawb deimlo'n gyfartal ac yn rhan o bopeth sy'n digwydd"

**CYFLEUSTERAU**
Dywedodd dros **5,500** mai'r cyfleusterau yn eu colegau neu ddarparwr roeddent yn ei hoffi fwyaf. Roedd hyn yn cynnwys cyfleusterau hamdden, lluniaeth, llyfrgelloedd a thrafnidiaeth.




**HELP A CHEFNOGAETH**
Dywedodd dros **14,500** o ddysgwyr mai'r help a'r gefnogaeth oedd ar gael oedd y peth roeddent yn ei hoffi fwyaf. Roedd hyn yn cynnwys cymorth un i un penodol, cymorth dysgu ychwanegol a chymorth ag amgylchiadau personol.

"Mae'r darparwr yn fy helpu gyda fy ngwaith ac yn gwneud yn siŵr bod y gwaith yn cael ei seilio ar yr hyn sydd hawddaf i mi"

"Lleoliad da, parcio'n hawdd, popeth yn gyfleus"

"Y dewis o fwyd a diod sydd ar gael yn y coleg"

**DYSGU**
Dywedodd dros **28,000** o ddysgwyr mai eu cwrs a'u cynnydd mewn dysgu roeddent yn ei hoffi fwyaf. Roedd hyn yn cynnwys natur a chynnwys cyrsiau, hyblygrwydd mewn trefniadau dysgu, ansawdd addysgu ac offer.

"Dewis da o hyfforddiant ar gael trwy gydol fy mhrentisiaeth"

"Brwdfrydedd y tiwtor a dull ac amrywiaeth y dulliau addysgu"


"Mae tiwtoriaid y cwrs yn gefnogol ac yn deall fy amgylchiadau personol"

Wrth eu cymharu â'r sgoriau a roddwyd gan ddysgwyr i'w coleg neu ddarparwr yn gyffredinol, mae'n amlwg bod dysgwyr sydd wedi rhoi'r **sgoriau mwyaf positif** hefyd yn fwy tebygol o nodi mai'r **gefnogaeth a gânt** yw'r peth **maent yn ei hoffi fwyaf** am eu profiad dysgu. Er enghraifft, roedd 30% o'r rhai a roddodd sgôr 'da iawn' yn nodi cefnogaeth fel y peth roeddent yn ei hoffi fwyaf, o'i gymharu â dim ond saith y cant o'r rhai a roddodd sgôr 'gweddol wael', 'gwael' neu 'gwael iawn' yn gyffredinol.

Hefyd, mae dysgwyr sy'n rhoi sgôr **'da iawn'** hefyd yn **llai tebygol** o ddweud eu bod yn hoffi eu **dysgu** neu'r **cyfleusterau** yn eu coleg neu ddarparwr.

Mae'r data hwn yn cadarnhau canfyddiadau'r Dadansoddiad o Ysgogwyr Allweddol, a oedd yn dangos mai help a chefnogaeth oedd ysgogwr mwyaf sgôr positif.

**Ffigur 5. Cymharu sgoriau cyffredinol colegau/darparwyr â ffactorau unigol**
**C. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich coleg/darparwr?**




Sylfaen: 70,558 o ymatebion pen agored ym Mlynyddoedd 1-3 | Ffynhonnell: Ipsos MORI

*Cafodd sylwadau gan ddysgwyr eu prosesu drwy ddefnyddio prosesu dysgu peiriant ac iaith naturiol. Cam cyntaf y dull hwn oedd nodi themâu yn y data ac yna codio sampl o ymatebion i'r themâu hyn. Mae cyfrifiadur yn arsylwi'r penderfyniadau hyn i ddyrannu ymatebion, ac yn canfod patrwm rhwng y dewisiadau a wnaethpwyd gan y dadansoddwr a'r geiriau a ddefnyddiwyd gan ddysgwyr yn eu hymatebion. Yn seiliedig ar y cysylltiadau hyn rhwng geiriau, mae'r cyfrifiadur yn dysgu ei hun i godio'r set ddata mewn un o'r themâu a ddewiswyd gan y dadansoddwr.*

# Beth mae dysgwyr yn teimlo y gellid ei wella?

Gofynnwyd i ddysgwyr hefyd beth oeddent yn teimlo y gellid ei wella am eu coleg neu ddarparwr. Cyflwynodd cyfanswm o **49,242** o ddysgwyr ymateb dros dair blynedd yr arolwg, er bod **12%** o'r rhai a wnaeth sylw yn dweud eu bod yn teimlo **nad oes dim y gellid ei wella.** Cafodd yr ymatebion hyn eu dadansoddi – gan ddefnyddio prosesu dysgu peiriant ac iaith naturiol – mewn themâu allweddol.

Awgrymodd **45%** o ddysgwyr y gellir gwella'r **addysg a'r dysgu** roeddent yn ei gael. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â safon yr addysgu; fodd bynnag, roedd dysgwyr hefyd yn awyddus i wella dyluniad ac argaeledd cyrsiau, a'r adborth a'r cymorth maent yn ei gael i wella eu gwaith.


Roedd **41%** o ddysgwyr yn teimlo y gellid gwella'r **cyfleusterau** yn eu coleg neu ddarparwr. Roeddent yn cyfeirio'n bennaf at wella amrywiaeth a chost y bwyd a diod a'r dewisiadau iach sydd ar gael. Soniodd cyfran lai am yr angen i wella mynediad at gyfrifiaduron a chyfleusterau diwifr, parcio a llochesi bws, cyfleusterau campfeydd a chwaraeon a chynnal a chadw toiledau.

Roedd **tri y cant** o ddysgwyr hefyd yn teimlo y gellid gwella'r **driniaeth a roddir i ddysgwyr**, gan gynnwys y parch mae staff yn ei ddangos tuag atynt.

**Ffigur 6. Trosolwg o welliannau a awgrymwyd: Cyfleusterau ac Addysgu a dysgu**

**Cyfleusterau**

(19,833 o ymatebion – 41% o'r cyfanswm)





"Mae'r ffreutur yn ddrud iawn ac nid yw'n gwerthu salad"

"Dylai mwy o gyfrifiaduron fod ar gael, er bod gliniaduron ar gael, weithiau maent i gyd yn cael eu defnyddio"

"Gadael y maes parcio – mwy o ffyrdd allan a rampiau cyflymder llai garw"

**Addysgu a dysgu**

(38,537 o ymatebion – 45% o'r cyfanswm)




"Dylai'r tiwtor gofio bod rhai myfyrwyr yn gweithio'n llawer cyflymach nag eraill"

"Dydw i ddim yn teimlo bod y wefan e-ddysgu'n hawdd i'w defnyddio bob amser"


"Mwy o adborth personol a sesiynau adolygu ar gyfer pob pwnc"

Wrth eu cymharu â'r sgoriau yr oedd myfyrwyr wedi'u rhoi i'w coleg neu ddarparwr yn gyffredinol, mae'n amlwg bod dysgwyr a roddodd y **sgoriau lleiaf positif** yn fwy tebygol o ofyn **bod addysgu a hyfforddiant** yn cael eu gwella.

Yn fwy penodol, mae'r rhai a roddodd sgôr 'gweddol wael', 'gwael', neu 'gwael iawn' yn fwy tebygol o ddweud bod angen gwella **safon yr addysgu** (roedd 54% o'u sylwadau'n ymwneud ag addysgu a dysgu), o'i gymharu â'r rhai a roddodd sgôr 'da iawn' (roedd 43% o'r rhain yn awgrymu bod angen gwella hyn).

Roedd cyfleusterau yr un mor debygol o gael eu crybwyll gan y rhai a roddodd sgôr 'gwael' ar y cyfan â chan y rhai a roddodd sgôr 'da iawn'; fodd bynnag, roedd sylwadau'n ymwneud â'r angen i **wella cyfleusterau arlwyo** yn benodol yn fwy amlwg ymhlith y rhai a roddodd sgôr 'gweddol wael', 'gwael' neu 'gwael iawn'.

**Ffigur 7. Cymharu sgoriau cyffredinol â ffactorau unigol sydd angen eu gwella**
**C. Beth, os unrhyw beth, fyddech chi'n ei wella am y coleg/darparwr hwn?**




Sylfaen: 52,665 o ymatebion pen agored ym Mlynyddoedd 1-3 Ffynhonnell: Ipsos MORI


# Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Gofynnwyd hefyd i ddysgwyr mewn Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned am eu dewis iaith ac am gyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ym mhob blwyddyn o'r arolwg, dywedodd **un y cant** o'r dysgwyr y byddai'n well ganddynt **ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig**, gyda **naw i ddeg y cant** arall yn dweud y byddai'n well ganddynt gael eu dysgu mewn **cymysgedd** o Gymraeg a Saesneg.

Roedd cyfran y dysgwyr a oedd yn cael cynnig y **cyfle i ddysgu naill ai trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog** wedi codi yn ystod cyfnod yr arolwg, o 45% ym Mlynyddoedd 1 a 2, i 49% ym Mlwyddyn 3.

**Ffigur 8. Trosolwg o'r cyfle i ddysgu yn Gymraeg**
**C. A oedd eich coleg/darparwr yn cynnig y cyfle i chi i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg?**




Sylfaen: Blwyddyn 1 (50,604); Blwyddyn 2 (63,327); Blwyddyn 3 (59,134) Ffynhonnell: Ipsos MORI

Ym mlwyddyn olaf yr arolwg, ymhlith y rhai oedd **yn well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig**, ychydig dros eu hanner (53 y cant) a **gafodd y cyfle i** ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd cyfran debyg (53 y cant) o'r rhai a oedd yn **well ganddynt gael eu dysgu mewn cymysgedd o Gymraeg a Saesneg** y cyfle i ddysgu'n ddwyieithog.

Ym mhob blwyddyn o'r arolwg, ychydig dros ddeg y cant (11-12%) o ddysgwyr yn y **sector Addysg Bellach** a ddywedodd yr hoffent ddysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Roedd bron i hanner (44-45%) y dysgwyr yn cael y **cyfle** i ddysgu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Unwaith eto, dywedodd tua deg y cant (wyth i ddeg y cant) o **ddysgwyr Seiliedig ar Waith** y byddai'n well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Roedd cyfran y rhai a gafodd y **cyfle i ddysgu** yn Gymraeg neu'n ddwyieithog wedi codi o 58% ym Mlwyddyn 1 i 64% ym Mlwyddyn 2.

Mewn **Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL),** dywedodd rhwng wyth a 13 y cant o ddysgwyr y byddai'n well ganddynt gael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Unwaith eto, cododd y cyfle i wneud hynny o 27% ym Mlwyddyn 1 i 35% o ddysgwyr ym Mlwyddyn 3.


# Storïau'r Sector: AB, WBL, ACL, CiO a hawdd ei ddarllen

# Addysg Bellach

Cymerodd **104,404** o ddysgwyr mewn Addysg Bellach ran yn yr arolwg dros y tair blynedd. Bu’r sgôr cyffredinol yn gyson, gyda **37%** o ddysgwyr yn rhoi sgôr ‘da iawn’ i’w coleg.

Roedd dysgwyr **fwyaf positif** am y gwasanaethau **iechyd a lles** sy’n cael eu darparu yn eu coleg. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o **bedwar pwynt canran** yng nghyfran y dysgwyr a ddywedodd bod y **cymorth maent yn ei gael** yn ‘dda iawn’ yn ystod y tair blynedd.

**Ffigur 9. Sgoriau yn ôl thema**
**Cyfran y dysgwyr sy’n rhoi sgôr ‘da iawn’**




Sylfaen: B1 (31,808); B2 (37,917); B3 (34,679)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**Y mesurau unigol a gafodd y sgoriau uchaf yn ystod y tair blynedd:**


- Dywedodd **50-51%** fod y ‘**parch** a ddangosir gan holl staff y coleg’ yn ‘dda iawn’.
- Dywedodd **48-51%** fod ‘gwneud yn siŵr bod dysgwyr **yn teimlo’n ddiogel** tra ar eu cwrs’ yn ‘dda iawn’.

**Y mesurau unigol lleiaf positif:**

- Dywedodd **25-28%** fod yr **wybodaeth a’r cyngor** a gynigiwyd am y gwahanol opsiynau oedd ar gael ar ôl i ddysgwyr gwblhau eu cwrs neu gyrsiau yn ‘dda iawn’.
- Dywedodd **24-27%** fod y cymorth a gafwyd i hybu **ffordd o fyw iach** yn ‘dda iawn’.

**Ffigur 10. Yr hyn roedd dysgwyr AB yn ei fwynhau fwyaf**

Gofynnwyd i ddysgwyr beth oeddent yn ei **hoffi fwyaf** am eu coleg. Ymatebodd 45,656 o ddysgwyr mewn AB. Roedd dysgwyr mewn AB yn fwy tebygol nag unrhyw sector arall o sôn am agweddau ar eu **cwrs a chynnydd mewn dysgu**.




“Rwyf yn hoffi’r system cymorth y tu mewn a’r tu allan i’r ystafell ddosbarth. Rwyf yn hoffi sut y mae tiwtoriaid yn helpu ac am eich gweld yn gwneud eich gorau”

“Rwyf yn mwynhau’r awyrgylch rhwng myfyrwyr a thiwtoriaid ac rwyf yn dysgu beth mae angen i mi wybod ac yn mwyhau gwneud hynny”

“Rwyf yn mwynhau pob gwers gan fy nhiwtoriaid. Rwyf yn mwynhau sut mae’r gwaith yn cael ei gyflwyno ac rwyf hyd yn oed yn mwynhau’r gwaith y mae’n rhaid i mi ei wneud”

**Ffigur 11. Sgoriau unigol gyda'r gwelliant mwyaf (AB)**

Roedd wyth mesur lle gwelwyd **cynnydd o ddau bwynt canran** yn ystod tair blynedd yr arolwg:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth a chyngor am opsiynau ar ôl cwblhau'r cwrs | Help i setlo yn y coleg | Gofyn am eu barn am y coleg | Rhannu camau i'w cymryd o ganlyniad i adborth dysgwyr |
| Sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel | Gwrando ar anghenion dysgwyr | Lleihau ar aflonyddwch i ddysgwyr | Cyflwyno cyrsiau mewn ffordd ddiddorol |

Gofynnwyd i ddysgwyr beth, os unrhyw beth, y byddent yn ei **wella** am eu coleg. Dywedodd pump y cant o ddysgwyr AB **na fyddent yn gwella dim**. Roedd dysgwyr mewn AB yn **llawer mwy tebygol** o sôn am **gyfleusterau** nag unrhyw sector arall.

**Ffigur 12. Meysydd i'w gwella yn achos dysgwyr Addysg Bellach**

**Cyfleusterau**
(Crybwyllwyd 16,821 o weithiau – 52%)

- Cafodd bwyd ei grybwyll dros **12,400** o weithiau. Roedd sylwadau'n cynnwys pethau fel prinder bwyd iach, prisiau afresymol ac ansawdd y ffreuturau.
- Crybwyllwyd TG dros **850** o weithiau, pethau fel diwifr, meddalwedd a chyfrifiaduron wedi dyddio.
- Cafodd trafnidiaeth ei grybwyll dros **650** o weithiau, gyda dysgwyr yn tynnu sylw at y cyfleusterau parcio, er enghraifft.
- Ar fwy na **620** achlysur, soniodd dysgwyr am gyfleusterau hamdden, gan gynnwys cyfleusterau hamdden a champfeydd eu colegau.

"Mi fyddwn i'n gwella mynediad at y rhyngrwyd ar gyfer ffonau symudol/tabledi am nad oes cyfrifiaduron ar gael bob tro pan ydych eu hangen"

"Rwyf yn dysgu gyrru, felly mi hoffwn gael cyfleusterau parcio am ddim erbyn i mi basio'r prawf"

"Dylai'r bwyd yn y ffreutur fod yn iachach, yn hytrach na brechdanau wedi'u prosesu sydd yn y bôn wedi'u gwneud o halen a chadwolion"

**Addysgu a hyfforddiant**
(Crybwyllwyd 23, 065 o weithiau – 40%)

- Cafodd ansawdd yr addysgu ei grybwyll dros **9,100** o weithiau, gyda dysgwyr yn cwyno ei bod yn anodd siarad ag athrawon neu roi gwersi a allai fod yn fwy diddorol.
- Crybwyllwyd dyluniad gwersi dros **5,200** o weithiau. Hoffai rhai dysgwyr weld gwersi'n rhoi mwy o bwyslais ar dechneg arholiadau, gydag eraill yn teimlo eu bod yn gorfod sefyll gormod o brofion.

"Mae strwythur i'r gwersi'n hanfodol. Byddai'n llawer gwell gen i wybod beth i'w ddisgwyl"


"Y ffordd y mae'r cwrs yn cael ei ddysgu a'r dewis o staff sy'n dysgu'r dosbarth, gan fy mod yn teimlo nad yw ein tiwtoriaid yn cyrraedd y safon ac nid ydynt yn gwybod sut i reoli dosbarth"

# Dysgu Seiliedig ar Waith

Cymerodd **54,267** o ddysgwyr seiliedig ar waith ran yn yr arolwg dros y tair blynedd. Cynyddodd y sgôr cyffredinol o **60%** o ddysgwyr oedd yn sgorio eu darparwr fel 'da iawn' yn y flwyddyn gyntaf i **64%** yn y flwyddyn olaf.

Roedd dysgwyr **fwyaf positif** ynghylch yr **addysgu a'r hyfforddiant** ar eu cwrs; fodd bynnag, y sgôr ar gyfer y **cymorth** a gafwyd a welodd y cynnydd mwyaf – **wyth pwynt canran** – yn ystod tair blynedd yr astudiaeth.

**Ffigur 13. Sgoriau yn ôl thema**
**Cyfran y dysgwyr yn rhoi sgôr 'da iawn'**




Sylfaen: B1 (13,236); B2 (20,496); B3 (20,535)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**Y mesurau unigol a gafodd y sgoriau uchaf dros y tair blynedd:**


- Dywedodd **69-73%** fod y '**parch** a ddangoswyd gan yr holl staff yn y coleg' yn 'dda iawn'.
- Dywedodd **69-70%** fod 'trin pawb yn **deg'** yn 'dda iawn'.

**Y mesurau unigol lleiaf positif:**

- Dywedodd **44-49%** fod yr adborth **a'r** cyngor a gafwyd ar ôl cwblhau'r cwrs yn 'dda iawn''.
- Dywedodd **42-48%** fod y cymorth i ddilyn ffordd o byw iach yn 'dda iawn'.
- Fodd bynnag, gwelodd y ddau fesur gynnydd sylweddol yn ystod y tair blynedd.

**Ffigur 14. Yr hyn mae dysgwyr WBL yn ei hoffi fwyaf**

Gofynnwyd i ddysgwyr beth oeddent yn ei **hoffi fwyaf** am eu darparwr. Roedd dysgwyr seiliedig ar waith bron **ddwywaith yn fwy tebygol** nag unrhyw sector arall i sôn am yr help a'r **gefnogaeth** a gawsant.





"Yr help a'r cyngor a gefais ganddynt, pa bryd bynnag oedd ei angen, roedd ganddynt ateb bob amser i unrhyw gwestiynau neu bryderon oedd gen i"


"Rwy'n mwynhau dysgu unwaith eto ac mae'r gwaith yn ddiddorol"


"Rwy'n mwynhau bod yma ac rwy'n dod ymlaen yn dda â'r bobl a fy nhiwtoriaid ac rydw i wedi gwella llawer o bethau"


## Ffigur 15. Mesurau unigol gyda’r gwelliant mwyaf (WBL)

Mae’r sgoriau ar gyfer nifer o fesurau wedi gwella’n sylweddol yn ystod tair blynedd yr arolwg. Yn fwyaf penodol, mae pedwar maes wedi gweld cynnydd o **chwe phwynt canran** yn nghyfran y dysgwyr sy’n rhoi sgôr ‘da iawn’ iddynt.




Gofynnwyd i ddysgwyr beth, os unrhyw beth, y byddent yn ei **wella** am eu darparwr. Roedd dysgwyr seiliedig ar waith yn **fwy tebygol** o ddweud **nad oedd angen gwella dim (30%)** na dysgwyr mewn unrhyw sector arall.

## Ffigur 16. Meysydd i’w gwella yn achos dysgwyr seiliedig ar waith

### Cyfleusterau
(crybwyllwyd 1,727 o weithiau – 17%)

- Crybwyllwyd bwyd dros **1,100** o weithiau a soniodd dysgwyr yn benodol am yr angen am fwyd poeth, mwy o beiriannau gwerthu a chyfleusterau i gynhesu bwyd o gartref.
- Roedd dros **80** o sylwadau’n ymwneud ag offer oedd ar gael sydd angen ei ddiweddaru i helpu dysgwyr i wneud eu gorau ar eu cyrsiau.

### Addysgu a dysgu
(crybwyllwyd 8,281 o weithiau – 51%)

- Roedd dros **3,200** o sylwadau’n cyfeirio at ansawdd yr addysgu. Roedd dysgwyr yn teimlo bod y gymhareb dysgwyr i staff yn rhy uchel ac roedd eraill yn teimlo bod rhai athrawon yn eithaf dibrofiad.
- Roedd dros **1,500** o sylwadau’n cyfeirio at ddyluniad cyrsiau, fel faint o waith ysgrifenedig oedd yn rhan o’r cwrs.
- Roedd adborth a chymorth yn cyfrif am dros **1,000** o’r sylwadau, lle’r hoffai dysgwyr gael mwy o lais yng nghynnwys y cyrsiau.

“Mae peiriannau gwerthu neu fwyd poeth ar gael i’w brynu am brisiau rhesymol ar y safle”

“Sicrhau bod offer y gweithdai’n gyfoes gydag offer modern ac sy’n gweithio ac sy’n barod i’w ddefnyddio, nid yn barod i’w ddefnyddio ar ôl i ni adael”

“Mae 10 awr o waith academaidd braidd yn ddwys. Mae angen i’r darparwr deall adborth gan ddysgwyr sy’n dweud bod yr amserlen braidd yn rhy hir”

“Rwyf yn teimlo ein bod wedi cael ein rhoi ar ddeall cyn cofrestru ar y cwrs na fyddai llawer o waith ysgrifenedig, ac nid yw hynny’n wir”


“O ran nifer yr athrawon, efallai y dylid bod wedi cael mwy gan fod gormod o ddysgwyr ac mae mwy’n dechrau bob wythnos, mae’n gallu bod yn anodd iddyn nhw weld pawb”

# Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Cymerodd **17,996** o oedolion sy'n dysgu yn y gymuned ran yn ystod tair blynedd yr arolwg. Mae'r sgôr cyffredinol wedi **cynyddu,** gyda **60%** o ddysgwyr yn sgorio eu darparwr fel 'da iawn' ym Mlwyddyn 1 a **65%** ym Mlwyddyn 3.

Roedd dysgwyr fwyaf positif ynghylch **ymatebolrwydd** eu darparwyr a'r **cymorth iechyd a lles** oedd ar gael – gwelodd y ddau fesur **gynnydd o saith pwynt canran** yn ystod tair blynedd yr arolwg.

## Ffigur 17. Sgoriau yn ôl thema
### Cyfran y dysgwyr sy'n rhoi sgôr 'da iawn'




Sylfaen: B1 (7,039); B2 (6,229); B3 (4,728)

Ffyhnhonnell: Ipsos MORI

**Y mesurau unigol a gafodd y sgoriau uchaf yn ystod y tair blynedd oedd:**


- Dywedodd **78-81%** fod 'y **parch** a ddangosir gan holl staff y darparwr yn 'dda iawn'
- Dywedodd **77-79%** fod **'trin pawb yn deg'** yn 'dda iawn'

**Y mesurau unigol lleiaf positif:**

- Dywedodd **44-50%** fod yr **wybodaeth a'r cyngor** a gawsant am yr opsiynau ar ôl y cwrs yn 'dda iawn'
- Dywedodd **47-53%** fod yr wybodaeth am ble i fynd am **gymorth** yn 'dda iawn'.

**Ffigur 18. Yr hyn roedd dysgwyr ACL yn ei hoffi fwyaf**

Gofynnwyd i ddysgwyr beth oeddent yn ei **hoffi fwyaf** am eu darparwr. Roedd dysgwyr ACL fwyaf positif am gynnwys eu cwrs a'u **profiad dysgu**.




"Llawn cydymdeimlad ac yn amyneddgar, pan fydd yn rhaid i mi ofyn cwestiynau. Hefyd, rhoddir enghreifftiau pob dydd o'r wybodaeth rydym yn ei dysgu fel y gallwn ddeall y termau technegol. Rwy'n edrych ymlaen at bob gwers"

"Mae cymorth ac esboniadau am y gwaith cwrs yn cael eu cyflwyno mewn ffordd anwahaniaethol ac nid yw'n gwneud i chi deimlo'n wirion pan fyddwch yn gwneud camgymeriadau"

"Mae'r awyrgylch cyfeillgar, a'r wybodaeth a roddir gan y tiwtor a myfyrwyr"

## Ffigur 19. Mesurau unigol â'r gwelliant mwyaf (ACL)

Dangosodd pob mesur ond un (cyflwyno cyrsiau mewn ffordd sy'n cadw diddordeb dysgwyr) gynnydd yng nghyfran y dysgwyr a oedd yn rhoi sgôr 'da iawn'. Yn fwyaf penodol, gwelodd dau fesur gynnydd o **saith pwynt canran.**

**Rhoi cymorth gyda materion personol sy'n eich helpu i aros ar eich cwrs**

40% – 60%

Blwyddyn 1 **48%**
Blwyddyn 2 **55%**
Blwyddyn 3 **57%**

**Dweud wrthych beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r farn rydych wedi'i rhannu**

30% – 50%

Blwyddyn 1 **37%**
Blwyddyn 2 **43%**
Blwyddyn 3 **47%**

Gofynnwyd i ddysgwyr beth, os unrhyw beth y byddent yn ei **wella** ynghylch â'u darparwr. Dywedodd un o bob pump (20%) o'r rhai a ymatebodd **nad oedd angen gwella dim**. Fodd bynnag, dywedodd dros hanner y rhai a ymatebodd y gellid gwella agweddau ar **addysgu a hyfforddiant.**

## Ffigur 20. Meysydd i'w gwella yn achos Oedolion sy'n Dysgu yn y Gymuned

**Cyfleusterau**
(crybwyllwyd 1,017 o weithiau – 15%)

- Soniwyd am fwyd dros **630** o weithiau, gyda dysgwyr yn fwyaf anfodlon gyda'r diffyg dewisiadau iach.
- Soniwyd dros **70** o weithiau am gyfleusterau TG, gyda dysgwyr yn cwyno am osodiadau rhwydwaith cyfyngol a chyflymder cysylltu araf.

**Addysgu a dysgu**
(crybwyllwyd 4,265 o weithiau – 55%)

- Cyfeiriodd dros **1,560** o sylwadau at ansawdd yr addysgu, gyda rhai dysgwyr yn teimlo nad oedd gwersi'n cael eu paratoi'n briodol ac nad oedd rheolaeth briodol yn cael ei chadw yn yr ystafell ddosbarth.
- Cafodd dyluniad cyrsiau ei grybwyll dros **1,100** o weithiau, ac roedd hyn yn cynnwys cyrsiau ailadroddus ,ac nad oedd eu hamgylchiadau personol (fel anawsterau dysgu) yn cael eu hystyried.
- Cafodd adnoddau eu crybwyll dros **470** o weithiau, gyda dysgwyr yn teimlo y dylai'r coleg ddarparu mwy'n ddi-dâl a hefyd reoli sut maent yn cael eu cyflenwi'n well.

"Cyfrifiaduron mwy pwerus neu – dim cyfyngiadau rhwydwaith a chyfyngiadau rhwydwaith plentynaidd i amharu arnynt"

"Cynllunio adnoddau'n well – gweithdai a chyfleusterau ddim yn cael eu defnyddio'n ôl maint y dosbarth"

"Byddaf yn teimlo weithiau bod unedau'r cyrsiau'n undonnog a heb lawer o gynnwys"

"Mae'r dewis yn y ffreutur yn y coleg yn warthus. Does dim byd maethlon, dim ond braster, braster a mwy o fraster."

"Mwy o athrawon gyda mwy o brofiad o wahanol fathau o fyfyrwyr, weithiau mae'r dosbarthiadau'n llanast llwyr"


# Cymraeg i Oedolion

Roedd **6,024** o ddysgwyr ar y rhaglen Cymraeg i Oedolion wedi cymryd rhan yn yr arolwg. Yn gyffredinol, roedd y gyfran a roddodd sgôr 'da iawn' i'w darparwr wedi cynyddu o **56%** i **61%** yn ystod y tair blynedd.

Roedd dysgwyr fwyaf positif ynghylch **iechyd a lles**, a gafodd y sgôr uchaf, ac a welodd **gynnydd o chwe phwynt canran**. Dangosodd dysgwyr hefyd fod y **gefnogaeth** a roddwyd gan staff hefyd wedi cynyddu chwe phwynt canran.

## Ffigur 21. Sgoriau yn ôl thema

**Cyfran y dysgwyr yn rhoi sgôr 'da iawn'**




Sylfaen: B1 (1,815); B2 (2,257); B3 (1,952)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

**Y mesurau unigol a gafodd y sgoriau uchaf yn ystod y tair blynedd:**


- Dywedodd **83-85%** fod y '**parch** a ddangosir gan bob staff yn y darparwr' yn 'dda iawn'.
- Dywedodd **74-75%** fod 'cyflwyno'r cwrs mewn ffordd **ddiddorol**' yn 'dda iawn'.

**Y mesurau unigol lleiaf positif:**

- Dywedodd **24-27%** fod '**gwrando ar farn dysgwyr**' yn 'dda iawn'.
- Dywedodd **24-27%** fod y gefnogaeth i **ffordd iach o**

## Ffigur 22. Yr hyn roedd dysgwyr CiO yn ei fwynhau fwyaf

Gofynnwyd i ddysgwyr beth oeddent yn ei **hoffi fwyaf** am eu darparwr. Roedd dysgwyr CiO yn **fwy tebygol** o sôn am **bobl** nag unrhyw sector arall. Soniodd eu hanner am eu cwrs a chynnydd mewn dysgu fel y peth roeddent yn ei hoffi fwyaf.





"Mae fy nhiwtor wedi bod yn gefnogol iawn ac mae'n llysgennad gwych i'r darparwr"

"Mae'r tiwtoriaid a'r dysgwyr eraill yn frwd ac awyddus, ac yn angerddol dros ddysgu"

"Rydw i wedi mwynhau ac wedi dysgu cymaint o hanes lleol, ac yn dal i wneud hynny, a gobeithio y bydd yn parhau!"

## Ffigur 23. Mesurau unigol â'r gwelliant mwyaf (CiO)

Roedd y sgoriau ar gyfer nifer o fesurau wedi gwella'n sylweddol yn ystod tair blynedd yr arolwg. Yn fwyaf penodol, dangosodd pum maes gynnydd o chwe phwynt canran yng nghyfran y dysgwyr a oedd wedi rhoi sgôr 'da iawn' iddynt.




Gofynnwyd i ddysgwyr beth, os unrhyw beth, y byddent yn ei **wella** am eu darparwr. Roedd dysgwyr Cymraeg i Oedolion yn **fwy tebygol** i sôn am **addysgu a dysgu** fel cyfran o'u sylwadau nag unrhyw sector arall.

## Ffigur 24. Meysydd i'w gwella yn achos dysgwyr Cymraeg i oedolion

**Cyfleusterau**
(crybwyllwyd 268 o weithiau – 15%)

- Crybwyllwyd lluniaeth dros **180** o weithiau. Roeddent yn awgrymu amser cinio hirach, darpariaeth well o ran diodydd poeth a mwy o doriadau coffi rhwng gwersi.

**Addysgu a dysgu**
(crybwyllwyd 2,299 o weithiau –74%)

- Ar fwy na **1,090** achlysur, soniodd dysgwyr am ansawdd yr addysgu, er enghraifft, diffyg trefnu, gormod o siarad yn Saesneg, ac ansawdd athrawon cyflenwi.
- Cafodd dyluniad cyrsiau ei grybwyll mwy na **380** o weithiau, gan gynnwys gormod o bwyslais ar ramadeg a dim digon o Gymraeg llafar, ac ailadrodd pynciau.
- Cafwyd dros **170** o sylwadau ar adborth a chymorth, fel mwy o wybodaeth am ble i gael gafael ar wasanaethau cymorth a threfniadau adborth mwy ffurfiol.

"Dim cyfleusterau i gael diodydd poeth yn yr egwyl (cwrs min nos ar ôl gwaith, felly byddai coffi bach yn ystod yr egwyl yn cael ei werthfawrogi). Mae rhai pobl yn dod â fflasgiau, nid yw hynny'n bosibl i mi gan fy mod yn dod ar fy union o'r gwaith"

"Mae adegau pan fyddaf yn teimlo nad oes llawer o ffocws i'r cwrs, lle'r ydym yn ailadrodd cynnwys rydym yn ei wybod eisoes. Byddai gwella'r un elfen hon yn gwella ein defnydd o amser"


"Mae'r adborth yn y dosbarth, felly os ydych chi'n colli dosbarth, ni fyddwch yn gwybod a yw'n gywir ai peidio"

# Hawdd ei Ddarllen

Cafodd fersiwn Hawdd ei Ddarllen o arolwg Llais y Dysgwr Cymru ei chyflwyno yn 2014. Roedd yr arolwg hwn wedi'i greu i **gynyddu cyfranogiad** yn yr arolwg ymhlith dysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu (LLDD), dysgwyr ag iaith gyntaf heblaw Cymraeg neu Saesneg, a dysgwyr gyda sgiliau rhifedd a/neu lythrennedd isel. Roedd yr arolwg Hawdd ei Ddarllen ar bapur yn unig, yn cynnwys llai o gwestiynau, geiriad symlach ac roedd yn defnyddio graddfa ymateb wahanol i'r arolwg craidd, sy'n golygu na ellir cyfuno data a rhaid edrych ar ganlyniadau Hawdd ei Ddarllen ar wahân.

Cymerodd cyfanswm o **3,724 o ddysgwyr** ran yn yr arolwg Hawdd ei Ddarllen yn 2014 a 2015.

**Ffigur 25. Crynodeb o'r canlyniadau Hawdd ei Ddarllen**




Sylfaen: Blwyddyn 2 (1,759), Blwyddyn 3 (1,965) Ffynhonnell: Ipsos MORI

Yn unol â'r canlyniadau o'r prif arolwg, roedd dysgwyr a gwblhaodd yr arolwg Hawdd ei Ddarllen yn bositif iawn ynghylch eu profiad dysgu. Yn ystod y ddwy flynedd, **sgoriodd dros dri chwarter** (77% ym Mlwyddyn 3 a 78% ym Mlwyddyn 2) y dysgwyr ei profiad fel un 'da iawn', gyda 21% - 20% arall yn sgorio eu profiad fel un 'eithaf da'.

Yn ystod y ddwy flynedd, cafwyd ymatebion arbennig o bositif o ran y parch a gafodd dysgwyr gan staff, diogelwch ar y cwrs a'r cymorth a gafwyd gan staff. Meysydd a gafodd sgoriau ychydig yn llai positif oedd yr wybodaeth a gafwyd am y cwrs, y cyfle a gafodd dysgwyr i fynegi barn am y cwrs a'r adborth a gafodd dysgwyr ar sut i wella.

# Ymchwiliadau: ethnigrwydd, dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu (LLDD) a dadansoddiad hydredol


# Ethnigrwydd

Ers Blwyddyn 1, mae'r sgoriau cyffredinol ar gyfer colegau a darparwyr wedi aros yn gyson ymhlith cyfranogwr Gwyn, sy'n cyfrif am fwyafrif llethol y dysgwyr. Fodd bynnag, mae'r sgoriau ymhlith rhai sy'n perthyn i rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi bod yn gyson is, ac mewn rhai achosion mae'r sgoriau hyn wedi gostwng ers Blwyddyn 1, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n perthyn i grwpiau ethnig 'eraill' (h.y. nid Pobl Dduon, Asiaidd neu Gymysg). Mae'r adran hon yn edrych ar y rhesymau am y gwahaniaeth mewn sgoriau cyffredinol rhwng grwpiau ethnig.

Mae cyfran y **dysgwyr Gwyn** sydd wedi sgorio eu coleg neu ddarparwr fel 'da iawn' **wedi parhau'n ddigyfnewid** (49% ym Mlynyddoedd 1 a 3). Fodd bynnag, mae'r sgoriau'n is ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac mewn rhai achosion maent wedi gostwng.

- Mae **llai o ddysgwyr Du** wedi sgorio eu coleg neu ddarparwr fel 'da iawn' ym Mlwyddyn 3 nag ym Mlwyddyn 1. Er nad yw'r gostyngiad hwn yn ddigon i fod yn arwyddocaol yn ystadegol, mae'r gostyngiad mewn sgoriau ymhlith rhai o gefndir Du Affricanaidd yn arwyddocaol (o 59% ym Mlwyddyn 1 i 37% ym Mlwyddyn 3).
- Mae rhai o **gefndir ethnig cymysg** wedi bod yn **llai tebygol yn gyson** i sgorio eu coleg neu ddarparwr fel 'da iawn'. Ar y cyfan mae dysgwyr Asiaidd hefyd wedi rhoi sgoriau is.
- Bu **gostyngiad sylweddol** mewn sgoriau 'da iawn' ymhlith y rhai mewn **'grwpiau ethnig Eraill**.

**Ffigur 26: Sgôr cyffredinol yn ôl ethnigrwydd**
**C. Sut fyddech chi'n sgorio eich coleg / darparwr yn gyffredinol?**




Gellir priodoli rhai o'r sgoriau is gan grwpiau lleiafrifoedd ethnig i'r newidiadau yn y ffordd maent yn edrych ar agweddau penodol ar eu coleg neu eu cwrs. Er enghraifft, roedd rhai o gefndir Du Affricanaidd ym Mlwyddyn 3 **yn llawer llai tebygol** nag ym Mlwyddyn 1 o roi sgôr 'da iawn' i lefel y **parch** gan staff coleg neu ddarparwr (i lawr o 73% i 57%) ac a oedd **eu barn** ar goleg neu gwrs yn cael ei gwahodd (i lawr o 50% i 31%).

Sylfaen: Blwyddyn 1 (53,564), Blwyddyn 2 (66,382), Blwyddyn 3 (61,621)

Ffynhonnell: Ipsos MORI

Ymhlith y rhai o gefndiroedd ethnig 'Eraill', bu **gostyngiad yn y sgoriau** ar gyfer ystod eang o agweddau, yn enwedig y rhai'n ymwneud ag **addysgu a dysgu**, yr ail ysgogydd cryaf mewn sgoriau cyffredinol. Rhoddodd llai o ddysgwyr o gefndiroedd ethnig 'Eraill' sgôr da iawn ym Mlwyddyn 3 i nifer o elfennau o addysgu a hyfforddiant o'i gymharu â Blwyddyn 1:

- Siarad am **nodau'r** dysgu (i lawr o 58% i 46%)
- **Gwrando** ar anghenion dysgwyr (i lawr o 62% i 50%)
- Cael **adborth** ar sut i wella (i lawr o 60% i 47%)
- Sicrhau nad yw dysgwyr eraill yn **amharu** arnynt (i lawr o 53% i 43%)
- Cadw **diddordeb** yn y cwrs (i lawr o 56% i 46%).

Roedd dysgwyr o ethnigrwydd 'arall' hefyd yn llai hapus ag **ansawdd gwybodaeth**, gyda llai'n dweud eu bod wedi cael 'gwybodaeth dda' ar eu dewis o gwrs (i lawr o 49% i 41%) neu am eu hopsiynau ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs (i lawr o 38% i 31%) nag ym Mlwyddyn 1. Dywed llai o ddysgwyr hefyd bod eu coleg neu ddarparwr yn 'dda iawn' am ddarparu'r **offer cywir** iddynt (i lawr o 49% i 36%), a all fod yn bwysig gan y gwelwyd mai help a chefnogaeth yw'r un ysgogydd cryfaf mewn sgoriau cyffredinol ar gyfer colegau a darparwyr.

Er bod dysgwyr o ethnigrwydd cymysg yn rhoi sgoriau cyffredinol is yn gyson i'w coleg neu ddarparwr, nid oes llawer o newid cyson wedi bod yn y ffordd maent wedi sgorio agweddau penodol yn ystod tair blynedd yr arolwg.

Fel rhan o arolwg Llais y Dysgwr Cymru, gofynnwyd i ddysgwyr **beth oeddent yn feddwl y gellid ei wella.** Mae dadansoddiad o'r sylwadau a wnaethpwyd gan ddysgwyr yn ystod tair blynedd yr arolwg yn awgrymu bod dysgwyr o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig (BME) **ar y cyfan yn cyfeirio ar yr un materion** fel rhai sydd angen eu gwella ag y cyfeiriwyd atynt gan rai o gefndiroedd Gwyn. Mae hyn yn cynnwys sylwadau am ansawdd addysgu, darpariaeth cyfrifiaduron, cyfleusterau ffreutur a lluniaeth. Fodd bynnag, mae dysgwyr BME sy'n rhoi sgôr cyffredinol 'gwael' neu 'gwael iawn' i'w coleg neu ddarparwr yn dueddol o wneud sylwadau'n bennaf ar yr angen i wella cyfleusterau.

“Bwyd rhatach, ffreutur mwy, mannau awyr agored glanach, mwy o offer yn y gweithdy”

“Cael ystafell gyffredin, peiriant arian, y ffreutur ar agor am fwy o oriau i bobl sy'n cael cinio hwyr”

“Mi hoffwn weld y llyfrgell yn agored tan yr amser pan fydd fy nghwrs yn gorffen. Hefyd, dylai'r Adran Myfyrwyr fod yn agored yn ystod oriau fy nghwrs wedyn os byddaf angen rhywbeth ni fydd yn rhaid i mi gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith a dod yn ystod y dydd”

# Dysgwyr ag Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu

Roedd bron hanner y dysgwyr ag anhawster a/neu anabledd dysgu (LLDD) (48%) yn rhoi sgôr o 'da iawn' i'w coleg neu ddarparwr, sy'n debyg i ddysgwyr yn gyffredinol (49%). Fodd bynnag, roedd LLDD yn llai tebygol o ddweud hyn nag ym Mlwyddyn 1 (gostyngiad o bedwar pwynt canran o 52%). Mae'r adran hon yn edrych ar y rheswm am y gostyngiad hwn.

**Nid yw'n debygol** y gellid priodoli'r gostyngiad yn y sgôr cyffredinol ymhlith LLDD i faterion yn ymwneud â'r **help a'r gefnogaeth** a gânt. Ni fu dim neu fawr ddim newid yng nghyfran y LLDD sy'n rhoi sgôr 'da iawn' i'w coleg neu ddarparwr ar nifer o agweddau ar gymorth. Lle bu newid arwyddocaol mewn barn, bu hyn i'r cyfeiriad positif:

- Darparu cymorth ar gyfer **materion personol** (i fyny o sgôr o 35% fel 'da iawn' ym Mlwyddyn 1 i 45% ym Mlwyddyn 3)
- Darparu **cymorth dysgu ychwanegol** (i fyny o 38% i 43%)

Efallai bod yr eglurhad am y gostyngiad i'w ganfod mewn llai o fodlonrwydd â **rhai agweddau ar addysgu a dysgu,** sef yr ail ysgogydd cryfaf mewn sgoriau cyffredinol. O'i gymharu â Blwyddyn 1, mae LLDD yn llai tebygol o roi sgôr 'da iawn' i athrawon a thiwtoriaid am ba mor dda maent yn:

- **Egluro'r** gwaith sydd angen ei wneud (i lawr o 58% i 54%)
- **Gwrando** ar ddysgwyr ynglŷn a'u hanghenion (i lawr o 59% i 55%)
- Rhoi **adborth** i ddysgwyr ar sut i wella (i lawr o 57% i 54%)
- Cadw **diddordeb** dysgwyr yn y cwrs (i lawr o 56% i 51%)

Ar y llaw arall, ni fu pob newid mewn agweddau at **addysgu a dysgu** yn negyddol. Mae rhai ag anawsterau ac anableddau dysgu yn y sector dysgu seiliedig ar waith yn fwy tebygol nag ym Mlwyddyn 1 o ddweud bod eu hathro neu diwtor yn dda iawn am roi digon o amser **un i un iddynt** (i fyny o 47% i 58%) ac am sicrhau bod yr **hyfforddiant yn berthnasol** (i fyny o 52% i 61%).

Bu ychydig o newidiadau mewn agweddau eraill ar y profiad dysgu, fel lefel y **cymorth neu'r wybodaeth** a roddir i ddysgwyr. Fodd bynnag, dywed llai o LLDD fod eu coleg neu ddarparwr wedi bod yn 'dda iawn' am eu helpu i **setlo** (i lawr o 55% i 52%) ac am sicrhau bod **parch** yn cael ei ddangos gan bob aelod o staff y coleg (i lawr o 63% i 60%).

Yn yr achosion hynny mae sgoriau wedi gostwng yn gyffredinol ym mhob sector ac eithrio **dysgu oedolion yn y gymuned,** lle mae sgoriau yn aml yn well nag ym Mlwyddyn 1.

Pan ofynnwyd beth hoffai LLDD **ei wella** am eu darparwr neu goleg, roedd llawer o'r sylwadau'n **cyfateb** i'r sylwadau a wnaethpwyd gan ddysgwyr heb anhawster neu anabledd dysgu.

Er enghraifft, roedd llawer o sylwadau'n sôn am yr angen i wella cyfleusterau bwyta, cyfleusterau chwaraeon ac ansawdd addysgu a hyfforddiant.

Nid yw rhai athrawon yn dangos llawer o barch tuag at y myfyrwyr, ac maen nhw'n anghofio ein bod ni'n oedolion

Dewisiadau iach yn y ffreutur…byddwn yn gwerthfawrogi peiriannau dŵr ar y coridorau

Ni ddylai tiwtoriaid ailadrodd pethau mor aml a thybio nad ydym yn gwybod dim: siaradwch fwy â ni a gwrandewch arnom

Fodd bynnag, mae rhai meysydd cyffredin ymhlith LLDD sy'n teimlo bod eu coleg neu ddarparwr yn 'wael'. Mae llawer o'r sylwadau'n cyfeirio at **lefel y cymorth ac agweddau tuag at ddysgwyr ag anghenion penodol**; ynghyd â sylwadau ar feysydd mwy penodol fel bod â'r offer a'r deunyddiau cywir ar gyfer y cwrs/hyfforddiant.

Help â materion personol a materion o fewn y coleg. A phrofion a diagnosis ar gyfer dyslecsia!

Mae dyslecsia arna i a dylwn gael 1 i 1 a mwy o help ond dwi'n cael dim, heblaw ychydig o help gyda fy arholiadau, a phan es i chwilio am rywun i drafod y peth doedd neb yn gwybod ble i fynd felly ni chefais ddim help gydol y flwyddyn…Roedd fy ysgol wedi anfon popeth roedd ei angen atynt a dwi byth wedi cael dim

Cafwyd addewid y byddai help 'ar gael' cyn i mi gofrestru a thalu am y cwrs. Rwy'n dal i aros bedwar mis yn ddiweddarach. Ni fyddaf yn gallu sefyll yr arholiad heb fynediad / amser ychwanegol

Mwy o help i fyfyrwyr gyda'u anawsterau dysgu, er enghraifft, mae gen i anhwylder iaith a lleferydd a doedd gan neb syniad sut i fy helpu am nad oeddent yn gwybod beth oedd yr anhwylder na'i fod yn bodoli hyd yn oed

Mae problemau mawr eraill â'r ffordd maent yn trin dysgwyr ag anawsterau, fel dyslecsia. Roedd yn rhaid i mi gysylltu ag ILM fy hun i gael help i un o fy nhîm. Nid ydynt wedi ystyried anghenion y busnes ac nid ydynt wedi gwneud unrhyw ymdrech i ddysgu. Rwyf yn gyfarwyddwr ac mae pobl yn siarad â mi fel pe bawn yn blentyn sy'n gwybod dim. Siomedig iawn

# Dadansoddiad hydredol

Cwblhawyd arolwg Llais y Dysgwr Cymru gan gyfanswm o 1,946 o ddysgwyr ym mhob un o'r tair blynedd yn yr un darparwr. Defnyddiwyd data heb ei bwysoli i gymharu sut y gallai sgoriau ar eu profiad fel dysgwyr fod wedi newid rhwng Blynyddoedd 1 a 3. I ddibenion y bennod hon, cyfeirir at ddysgwyr sydd wedi cael cynnwys yn y set ddata hon fel 'dysgwyr hydredol'.

Mae'r **sgôr cyffredinol** ymhlith dysgwyr hydredol wedi aros yn weddol gyson rhwng Blynyddoedd 1 a 3 yr arolwg, gyda rhwng 36%-39% o ddysgwyr yn rhoi sgôr cyffredinol 'da iawn' i'w coleg neu ddarparwr. Fodd bynnag, mae'r farn ar sut yr oedd cyrsiau'n cymharu â disgwyliadau cychwynnol wedi newid rhwng Blynyddoedd 1 a 3. Ym Mlwyddyn 1 dywedodd, 38% o ddysgwyr eu bod yn teimlo bod y cwrs wedi bod **'yn well na'r disgwyl'**; dywedodd 50% arall bod y cwrs 'yn debyg i'r disgwyl'. Ym Mlwyddyn 3, roedd cyfran y dysgwyr a oedd yn teimlo bod y cwrs 'yn well na'r disgwyl' wedi gostwng i 33%, tra bod cyfran y dysgwyr a oedd yn credu ei fod yn debyg i'r disgwyl wedi cynyddu i 56%. Efallai bod hyn yn arwydd o ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith dysgwyr o beth i'w ddisgwyl gan eu cwrs wrth iddynt fynd yn eu blaen.

**Bu gwelliant amlwg hefyd mewn profiadau mewn nifer o fesurau.**

Mae'r mesurau **gwybodaeth a chyngor** ill dau wedi gwella. Bu cynnydd yn y gwerthfawrogiad o safon yr wybodaeth a gafwyd ar ddechrau eu cwrs o 33% a sgoriodd hyn fel da iawn ym Mlwyddyn 1 i 38% ym Mlwyddyn 2. Bu cynnydd hefyd yn y nifer a sgoriodd yr wybodaeth ar yr hyn y gall myfyrwyr ei wneud ar ddiwedd eu cwrs fel 'da iawn' o 27% i 33%.

Bu cynnydd hefyd yng nghyfran y dysgwyr a sgoriodd **gwasanaethau dysgu ychwanegol** fel 'da iawn' o 31% ym Mlwyddyn 1 i 35% ym Mlwyddyn 3. Efallai y gellir priodoli hyn i well dealltwriaeth o anghenon ymhlith darparwyr ac ymwybyddiaeth o gymorth ymhlith dysgwyr wrth iddynt fynd ymlaen â'u cwrs.

Er na fu dim newid yn y canfyddiadau o'r **parch** a ddangosir gan staff, mae dysgwyr hydredol yn fwy tebygol o roi sgôr 'da iawn' am y ffordd y mae eu **darparwr yn gofyn am farn** dysgwyr (o 28% i 34%) ac am y ffordd y maent yn dweud wrth ddysgwyr **beth sydd wedi digwydd** o ganlyniad (i fyny o 25% i 31%).

Mae'r sgoriau am **ba mor ddiogel mae dysgwyr yn teimlo** yn ystod eu cwrs, ac i ba raddau y mae darparwyr yn hyrwyddo **cydlyniad** ymhlith dysgwyr o wahanol gefndiroedd yn weddol debyg rhwng Blynyddoedd 1 a 3. Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n rhoi sgôr 'da iawn' i'w darparwr am hybu **ffyrdd iach o fyw** wedi cynyddu o 25% i 30%.

Mae dysgwyr hydredol hefyd yn fwy tebygol o roi sgôr ‘da iawn’ ym Mlwyddyn 3 i nifer o agweddau ar **addysgu a hyfforddi:** siarad am nodau dysgu (i fyny o 43% i 49%), gwneud yn siŵr nad amherir ar eu gwaith (i fyny o 33% i 37%) a gwneud defnydd da o amser (i fyny o 43% i 47%).

Dywedodd dysgwyr hydredol hefyd eu bod yn cael mwy o gyfle i **ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.** Mae’r gyfran a ddywedodd eu bod yn cael cynnig y cyfle wedi dyblu o chwech y cant yn 2013 i 13% yn 2015.